CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Cystadleuaeth Animeiddio Diwrnod y Llyfr 2012

Briff

Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n chwilio am gwmni fydd yn gallu cydweithio â hwy wrth drefnu gweithdai animeiddio mewn dwy ysgol fel rhan o gystadleuaeth animeiddio Diwrnod y Llyfr 2012.

Bydd disgwyl i'r cwmni llwyddiannus fod â phrofiad helaeth ac enw da am gynnal gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc – gweithgareddau sy'n codi eu dyheadau ac yn ymestyn a datblygu eu hymwybyddiaeth o naratif ac adrodd stori trwy greu amgylchiadau cynhwysol a bywiog fydd yn annog pobl ifanc i greu gwaith dyfeisgar ac arloesol. Byddant yn brofiadol wrth ddyfeisio gweithdai sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau, demograffeg a phrofiadau, lle mae'r ffocws ar sicrhau bod straeon a dychymyg y plant a'r bobl ifanc yn cael eu datblygu. Bydd gan y cwmni llwyddiannus hefyd brofiad sylweddol o weithio gyda grwpiau sydd wedi ymddieithrio neu rai nad ydynt yn rhan o brif ffrwd addysg.

Bydd y cwmni llwyddiannus yn darparu cyngor a deunyddiau addas i staff CLLC wrth iddynt baratoi gwybodaeth a chanllawiau i'r ysgolion ar sut i fynd ati i lunio stori a fydd yn addas i'w hanimeiddio. Bydd cynrychiolwyr o'r cwmni hefyd yn barod i fod yn rhan o'r broses o ddethol y ceisiadau llwyddiannus ar ddiwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr 2011.

Bwriedir cynnal y gweithdai ym mis Ionawr 2012, gyda gweithdy 3 diwrnod i'w gynnal mewn ysgol Gynradd a gweithdy 5 niwrnod i'w gynnal mewn ysgol Uwchradd. Gall y gweithdai hyn gael eu cynnal mewn unrhyw leoliad yng Nghymru ac fe'u cynhelir dros gyfres o ddyddiau yn yr un wythnos, nid dros gyfnod estynedig. Disgwylir i'r cwmni llwyddiannus drafod a threfnu dyddiadau addas gyda'r ysgolion.

Disgwylir y bydd y cwmni llwyddiannus yn darparu gweithdai dwyieithog yn yr ysgolion. At hynny, disgwylir y bydd y cwmni yn darparu'r offer animeiddio diweddaraf, gydag elfen briodol o dechnoleg i sicrhau profiad gwerthfawr ac ymarferol i bob plentyn a pherson ifanc fydd yn rhan o'r gweithgareddau; disgwylir i'r cwmni hefyd ddarparu'r holl ddeunyddiau crefft angenrheidiol ar gyfer y gwaith o greu'r ffilmiau.

Disgwylir y bydd pob aelod o staff a gyflogir gan y cwmni i weithio yn yr ysgolion wedi sicrhau tystysgrifau Gwiriad Manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol *(enhanced CRB check)* ac y bydd y gweithdai'n cael eu harwain gan aelod o staff sy'n addysgwr/wraig cymwys â chymhwyster yn y maes. Yn ogystal, bydd angen i'r cwmni llwyddiannus fod ag yswiriant addas i weithio yn y modd hwn gyda phlant a phobl ifanc, polisi iechyd a diogelwch addas, a phatrwm o weithredu asesiadau risg ar gyfer cynnal gweithdai mewn ysgolion.

Caiff y ffilmiau terfynol eu lansio ar wefan y Cyngor Llyfrau ar Ddiwrnod y Llyfr 2012 (1 Mawrth 2012). Bydd angen i'r ffilmiau fod wedi eu cwblhau a'u golygu i gynnwys trosleisiad Cymraeg a Saesneg ynghyd ag is-deitlau ar gyfer cynulleidfaoedd byddar, a'u darparu i'r Cyngor mewn ffurf addas i'w gosod ar y we. Ynghyd â pharatoi'r ffilmiau i'w darlledu ar wefan y Cyngor, disgwylir i'r cwmni hefyd ddarparu copïau DVD o'r ffilmiau a grëwyd ar gyfer pob plentyn a fu'n rhan o'r gweithdai, a nifer penodedig i'r ysgolion dan sylw ac i'r Cyngor Llyfrau.

Os oes gennych ddiddordeb yn y cynllun uchod, cysylltwch â delyth.humphreys@cllc.org.uk am fanylion ar sut i gyflwyno cais. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: **24 Awst 2011.**

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

World Book Day 2012 Animation Competition

Brief

The Welsh Books Council is seeking a company to collaborate with them in organising animation workshops in two schools as part of the 2012 World Book Day animation competition.

The successful company will be expected to have extensive experience and a good reputation for organising activities with children and young people – activities which raise young people's aspirations and help develop their awareness of narrative and story-telling by creating an inclusive and lively atmosphere that will encourage them to create ingenious and innovative work. The company will be experienced in devising workshops suitable for various age groups, demography and experiences, where the focus is on ensuring the development of the children's and young people's stories and imaginations. The successful company will also have wide experience of working with excluded groups that are not part of main stream education.

The successful company will provide WBC staff with appropriate advice and materials in order to help them prepare information and guidelines for schools on how to create a story which would be suitable for animation. Representatives of the company will also be expected to play a part in the process of selecting the successful applications at the end of November/early December 2011.

The intention is to hold the workshop in January 2012, with a 3-day workshop at a Primary school, and a 5-day workshop at a Secondary school. These workshops could be held in any location throughout Wales, and they will be organised over a series of days during one particular week, not over an extended period of time. The successful company will be expected to discuss and arrange suitable dates with the schools.

It is expected that the successful company will provide bilingual workshops at the schools. In addition, they will be expected to provide modern, up-to-date animation equipment, including an element of technology sufficient to offer each child and young person involved in the activities a valuable and practical experience; they will also be expected to provide all the craft materials necessary to create the films.

It is expected that each member of staff employed by the company to work in the schools will be in possession of certificates proving that they have secured an enhanced CRB check, and that the workshops will be led by a member of staff who is a competent educationalist, qualified in the field. In addition, the successful company will have appropriate insurance to enable them to work in this way with children and young people, an appropriate health and safety policy, and a system of implementing risk assessments in relation to their workshops in schools.

The completed films will be launched on the Books Council's website on World Book Day 2012 (1 March 2012). The films will need to be finalised and edited to include a Welsh-language and English-language voiceover, together with sub-titles for the hard of hearing, and supplied to the Council in an internet-ready format. In addition to preparing the films to be shown on the Council's website, the company will also be expected to provide DVD copies of the films created, to be presented to each child participating in the workshops, and a specified number to the schools involved and to the Welsh Books Council.

If you are interested in the above scheme, please contact delyth.humphreys@wbc.org.uk for details of how to make an application. The closing date for receipt of applications is **24 August 2011.**